# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog a gynhaliwyd ar Zoom nos Lun Hydref 11eg 2021

Presennol: Alab Hughes,Siân Parri, Gareth Jones, John Davies, Alyn Williams,Humphrey Williams, Chris Brady, Terry Huws

Ymddiheuriadau: Henry Huws

1. Cadeiriwyd gan Alan Hughes (ar zoom) ac estynnodd groeso i bawb.

2. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Llainfatw –** Doedd dim i'w adrodd yn ôl
   b. **Porthysgaden –** Doedd dim i'w adrodd yn ôl
   c. **Arwydd 'Ysgol' Tudweiliog –** Cafwyd ymateb gan yr adran ffyrdd, bydd y Swyddogion yn ceisio caniatad perchenog tir er mwyn symud yr arwydd i safle ple nad oes tyfiant.
   ch. **Ardal Ni 2035 –** Trafodwyd y cwestiynau sydd angen ymateb iddynt a nodwyd mai cadwriaeth yr iaith yw un o'r prif ystyriaeth wrth feddwl ymlaen 15 mlynedd. Bydd y Clerc yn cystylltu ac Alis i drefnu dyddiad ac amser i gyfrarfod dros zoom gyda'r Cadeirydd, Clerc a Sian Parry.
   **d.** **Sedd Wag –** Bydd y Clerc yn cychwyn y broses o ethol Cynghorydd i lenwi sedd Seimon Glyn.
   dd. **Cynghorwyr sydd ddim yn mynychu'r cyfarfodydd –** Bydd y Clerc yn ceisio cysylltu a'r Cynghorwyr i drafod.
   e. **Twll yn y lon ger Plas Morfa, Llangwnndal –** Cafodd y Clerc gadarnhad gan yr adran Priffyrdd y bydd y twll yn cael ei gau yn fuan.
   f. **Barbio ger Tan Fron Garnfadryn –** Ni dderbynnwyd ymateb gan yr adran Priffyrdd, bydd y Cadeirydd yn cysylltu a'r Swyddogion.
   ff. **Yr hen gwt yn Mhorth Cychod -** Cysylltodd y Clerc a Carter

Jonas, cafwyd cadarnhad fod y cwt wedi ei drosglwyddo'n ôl i berchnogaeth y Stad, au bod yn llwyr ymwybodol o'i gyflwr. Mae'n fwriad gan y Stad ei drwsio a'i wneud yn saff.

3. Gohebiaeth:

a. **Cais i gefnogi'r alwad ar Lywodraeth Cymru i reoli'r farchnad dai -** Bydd y Clerc yn cysylltu i ddatgan cefnogaeth Cyngor Cymuned Tudweiliog.

b. **Rheoli Jet Skis –** Bydd y Clerc yn cysylltu a Liz Saville Roberts i ddatgan cefnogaeth Cyngor Cymuned Tudweiliog.

c. **Anfoneb Pozzi –** Rhoddwyd caniatad i dalu £684.00

ch **Mainc er cof am Elaine Davies –** Derbynwyd cais gan Ddrws i Ddrws i osod mainc yng ngroeslon Dinas er cof am Elaine Davies Nyffryn. Bydd y Clerc yn cysylltu i ddatgan cefnogaeth.

d. **Cais Cynllunio C21/0880/46/LL –** Siop y Bont, Llangwnnadl – Dim Sylw

dd. **Cais Cynllunio C21/0895/46/DT –** Tan y Frodd, Garnfadryn – Cefnogi

e. **Cais Cynllunio C21/0734/46/LL-** Tyddyn Isaf, Tudweiliog - Cefnogi (nodi ei fod o fewn AHNE)

4. **Unrhyw fater arall:**

a. Fe gauwyd lon o Dinas i Bryn Cynan yn ddi rybudd dydd Llun 13eg, bydd y Clerc yn cysylltu a'r adran Priffyrdd i ofyn am eglurhad.

5. **Rhannu'r prisept –**

Cyflwynodd y Clerc adroddiad a rhagdybiaeth o wariant i'r Cynghorwyr (gweler isod) i'w ystyried cyn rhannu'r prisept – penderfynwyd Rhannu fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Mynwent Tudweiliog | - £100.00 |
| Mynwent Dinas | - £100.00 |
| Eglwysi Bro Madryn | - £300.00 |
| Canolfan Tudweiliog | - £400.00 |
| Canolfan Llaniestyn | - £400.00 |
| Dinasyddion | - £200.00 |
| Clwb y Berthan | - £120.00 |
| Urdd Tudweiliog | - £120.00 |

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun 8ed Hydref 2021 am 7.30yh